

e - gylchgrawn Addysg Grefyddol

**Thema Rhifyn 10 : CREFYDD A CHWARAEON**

# Geirfa Allweddol

| | |
|---|---|
| **5K** | - Pum rheol sy’n cael eu cadw gan Siciaid cydwybodol. |
| **Addoli** | - Anrhydeddu neu fawrygu, parchu, plygu (gerbron) Duw/Iesu; mynd i wasanaeth crefyddol. To worship, adore. |
| **Aml-gyfryngol** | - Yn defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu e.e. lluniau/ffilmiau/geiriau/sain. Multimedia. |
| **Annog** | - Calonogi, ceisio cael person i symud ymlaen i wneud rhywbeth. To encourage. |
| **Arfogi** | - Rhoi'r tŵls sydd eu hangen i rywun wneud rhywbeth. To equip. |
| **Bwdhaeth** | - Crefydd sy'n dilyn dysgeidiaeth y Bwdha. |
| **Cwpan Webb-Ellis** | - Yr enw ar gwpan rygbi'r byd wedi ei henwi ar ôl William Webb-Ellis. |
| **Cyfunwyd** | - Wrth gyfuno mae dau beth yn dod at ei gilydd. To combine. |
| **Cysegr** | - Man sanctaidd i addoli. |
| **Defod** | - Seremoni sy'n cael ei dilyn yn gyson. |
| **Elusen** | - Rhoi cymorth i bobl mewn angen. |
| **Gwahaniaethu** | - Trin grŵp o bobl yn wahanol am reswm annheg. |
| **Kami** | - Duw neu dduwiau y mae crefydd Shinto yn credu sydd y tu mewn i bopeth byw. |
| **Kesh** | - Kesh – arferiad Siciaid o beidio torri’r gwallt nac eillio. |
| **Matsuri** | - Gwyliau ysbrydol yn Japan. |
| **Rhagfarn** | - Barnu pobl ymlaen llaw heb reswm digonol; e.e. ar sail lliw neu grefydd. |
| **Rhufeiniaid** | - Fe wnaeth yr Apostol Paul ysgrifennu llawer o lythyrau at yr eglwysi Cristnogol cynnar. Roedd y |

| | |
|---|---|
| | llythyrau’n egluro pethau am Dduw, Iesu, yr Ysbryd Glân, ac yn trio helpu’r Cristnogion cyntaf i fyw fel dilynwyr Iesu. Ysgrifennodd lythyr at yr eglwys oedd yn cyfarfod yn Rhufain. Mae’r llythyr yn Nhestament Newydd y Beibl. |
| **Shinto** | - Crefydd wreiddiol Japan. |
| **Sujood** | - Y symudiad o blygu o flaen Allah mewn gweddi. |
| **Sylwebyddion** | - Pobl sy’n disgrifio beth sy’n digwydd mewn gêm ar y radio/teledu/we. Commentators. |
| **Teml** | - Man sanctaidd i addoli. |
| **Ymestyn** | - Cyrraedd at berson neu at rywbeth, ehangu. To reach out, to extend |
| **Ymgroesi** | - Gwneud arwydd y groes. |